

2018 Rhif 918 (Cy. 180)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2018

Gwnaed 30 Gorffennaf 2018

Yn dod i rym 1 Awst 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Awst 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(2); a

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lloedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Awst 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r draffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn gymwys.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Gorffennaf 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Darnau o draffordd yr M4 wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) yn Ninas Casnewydd

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 400 metr cyn ei chyffordd â'r A48 hyd at y gyffordd honno.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o'i chyffordd â'r brif gerbyttffordd gylchredol wrth Gyffordd 28 am bellter o 250 o fetrau, gan gynnwys y darn cyfagos o lôn neilltuedig o'r A467.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt 200 metr cyn ei chyffordd â'r brif gerbyttffordd gylchredol wrth Gyffordd 28 hyd at y gyffordd honno, gan gynnwys y darn cyfagos o lôn neilltuedig i'r A48.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o'i chyffordd â'r A48 am bellter o 300 metr.